

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

CROESEWIR BWYDO AR Y FRON
BREASTFEEDING WELCOMED

Y Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Polisi bwydo ar y fron

Mae cael polisi ysgrifenedig yn ffordd hawdd o sicrhau bod pob un o'r staff yn gwybod bod uwch reolwyr a'r sefydliad cyfan yn cefnogi bwydo ar y fron o fewn eu safleoedd cyhoeddus. Gall polisi naill ai fod yn annibynnol, neu gellir ei ymgorffori mewn polisi presennol.

Ceir polisi enghreifftiol isod sy'n gallu cael ei addasu, ond dyma ychydig o brif bethau sydd eu hangen o ran unrhyw bolisi:

- Bod yn ysgrifenedig
- I ddweud bod y lleoliad croesawu bwydo ar y fron ac yn ymrwymedig i'r Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron
- Dweud pwy yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am weithredu a diweddaru'r polisi
- Datgan cyfrifoldebau staff o ran croesawu mamau i fwydo ar y fron
- Cynnwys cyfrifoldeb y sefydliad tuag at gefnogi bwydo ar y fron ar gyfer aelodau staff, os yw'n berthnasol. Ochr yn ochr â hyn, datgan y cyfleusterau priodol a'r trefniadau gweithio hyblyg sydd ar gael.
- Dweud sut bydd yn cael ei gyfleu i staff
- Darparu dolen i ddod o hyd i fwy o wybodaeth
- Dweud i ble y dylid cyfeirio cwynion, a'r weithdrefn
- Dylid adolygu'r polisi bob blwyddyn



Polisi Enghreifftiol Bwydo ar y Fron

Polisi Bwydo ar y Fron y Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron

Mae'r lleoliad hwn yn croesawu babanod i gael eu bwydo ar y fron mewn unrhyw ardal gyhoeddus o'r safle hwn.

Sut byddwn ni'n gwneud i hyn ddigwydd

Bydd copi o'r polisi hwn yn cael ei roi i bob aelod newydd o staff, a dylid arddangos copi yn_____

_____sydd â'r cyfrifoldeb am ddosbarthu a diweddaru'r polisi hwn bob blwyddyn, yn ogystal â derbyn sylwadau ac adroddiadau ar ddigwyddiadau.

Bydd pob un o'n staff yn cefnogi anghenion a hawliau mamau sy'n bwydo ar y fron. Os bydd cwsmer / ymwelydd arall â'r safle yn gwrthwynebu bwydo ar y fron, bydd yn cael esboniad bod rheolwyr yn cefnogi bwydo ar y fron. Os na ellir datrys y sefyllfa'n rhwydd, dylai staff iau gyfeirio cwsmeriaid / ymwelwyr at uwch reolwyr.

Os bydd aelod o staff yn teimlo bod angen mwy o arweiniad arno/arni ynglŷn â hyn, dylai siarad â/ag_____

Bydd ein staff:

- Yn arddangos sticeri ac arwyddion priodol
- Yn croesawu mamau sy'n bwydo ar y fron a'u teuluoedd
- Dangos siarter y Cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron

Rydym yn croesawu bwydo ar y fron:

- I gefnogi anghenion cwsmeriaid, ymwelwyr neu staff a bod yn fwy cyfeillgar i deuluoedd.
- Mae angen i fabanod gael eu bwydo pan fyddant yn gofyn amdano. Mae angen iddynt gael eu bwydo'n aml, mae eu stumogau'n fach ac mae llaeth y fron yn cael ei dreulio'n gyflym.
- Mae bwydo ar y fron yn gweithio orau pan fydd y fam a'r baban wedi ymlacio.
- Yn gyffredinol, bydd babanod llwglyd, anhapus yn cael eu helpu i lonyddu ac ymdawelu wrth fwydo ar y fron. Mae hyn yn dda ar gyfer pob un o'n cwsmeriaid, ein hymwelwyr neu'n cleientiaid.

I gael mwy o wybodaeth a manteisio ar adnoddau a hyfforddiant yn gysylltiedig â'r cynllun, sganiwch y cod QR

Os oes gennych chi gwestiynau neu i gael mwy o wybodaeth: